

## SFJYJGA7W

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr



---

#### Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â chyfathrebu'n effeithiol â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'n cynnwys gwrando, cwestiynu, deall ac ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud, a'u cynnwys nhw wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r uned hon hefyd yn adlewyrchu agweddau penodol ar y sgiliau a'r wybodaeth graidd gyffredin a nodwyd drwy 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig', fel y mae'n berthnasol yn Lloegr.

Mae'r uned hon yn berthnasol i bawb o'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

#### **Cynnwys yr uned:**

- 1 Meithrin empathi gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- 2 Diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- 3 Rhannu gwybodaeth gyda'r rheiny sydd ei hangen

## SFJYJGA7W

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

---

#### Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

#### Meithrin empathi gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr

- P1 defnyddio ffurfiau ac arddulliau priodol o gyfathrebu sy'n addas at anghenion a galluoedd plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr
- P2 cynnal sgysiau ar yr adeg briodol ac yn y man priodol
- P3 esbonio sefyllfaoedd yn llawn ac yn gywir, gan osod yr hyn sydd wedi digwydd neu beth fydd yn digwydd nesaf a'r rhesymau dros gamau o'r fath
- P4 annog cwestiynau a gwirio am ddealltwriaeth
- P5 hysbysu, cynnwys a helpu'r plentyn neu'r person ifanc, a'i deulu a'i ofalwyr, i asesu dulliau gwahanol o weithredu ac i ddeall canlyniadau pob un o'r rhain
- P6 nodi beth mae'r plentyn neu'r person ifanc, a'i deulu neu ei ofalwyr, yn gobeithio'i gyflawni wrth ddod i'r casgliad gorau a thecach posibl
- P7 gwrando'r weithgar ac ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon
- P8 cael, lle bo'n briodol, cydsyniad y plentyn, neu'r person ifanc, a'i deulu neu ei ofalwyr, i ddull cytunedig o weithredu
- P9 esbonio'n glir i'r plentyn i'r person ifanc, a'i deulu a'i ofalwyr, pa wybodaeth y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ei rhannu gydag eraill a pham
- P10 crynhoi sefyllfaoedd mewn modd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth i'r unigolyn, gan gymryd ei gefndir, ei oedran a'i bersonoliaeth i ystyriaeth
- P11 cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r pwyntiau a drafodwyd a chanlyniadau eich trafodaethau

#### Diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc

*Rhaid i chi allu:*

- P12 nodi ac asesu arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl sy'n effeithio ar blentyn neu berson ifanc
- P13 ceisio gwirio, lle bo'n bosibl, pryderon a gwybodaeth a gafwyd oddi wrth bobl eraill
- P14 ymgynghori, lle bo'n briodol, â'r plentyn, y person ifanc, ei riant neu ei ofalwr, ynghylch ffactorau a all fod yn rhwystro gwireddu ei botensial neu'n amharu ar ei iechyd a'i les
- P15 cynnwys y plentyn neu'r person ifanc, lle bo'n briodol, mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno, gan gymryd ei oedran, ei allu, ei ddymuniadau a'i deimladau i ystyriaeth
- P16 llunio barnau ystyrion ynghylch sut i weithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn neu berson ifanc
- P17 gweithredu'n brydlon ac yn gywir wrth gymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn lles plant a phobl ifanc

## SFJYJGA7W

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

---

P18 cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'ch camau a'r canlyniadau

#### **Rhannu gwybodaeth gyda'r rheiny sydd ei hangen**

##### *Rhaid i chi allu:*

- P19 nodi'r holl wybodaeth berthnasol, sydd ar gael, a phennu unrhyw fylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw
- P20 pennu a chytuno â'r bobl briodol ar sut y ceir unrhyw wybodaeth sydd ei hangen o hyd, gan gynnwys pwy fydd yn ei darparu ac erbyn pryd
- P21 asesu'n gywir berthnasedd a statws y wybodaeth sydd ar gael, gan wahaniaethu rhwng arsylwi neu farn
- P22 nodi'r partïon hynny y mae angen rhannu gwybodaeth gyda nhw, neu sydd â hawl i'w chael, a rhyddhau'r wybodaeth ofynnol yn brydlon ac yn gywir
- P23 cyfleu gwybodaeth yn glir ac yn ddiamwys, annog cwestiynau a gwirio am
- P24 ceisio cydsyniad, lle bynnag y bo modd a lle bo'n briodol, gan y plentyn neu'r person ifanc, neu ei deulu neu ei ofalwr, i rannu gwybodaeth
- P25 parchu sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill
- P26 cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r wybodaeth a ddarparwyd

## SFJYJGA7W

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

---

#### Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

#### Meithrin empathi gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr

- K1 pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth ac empathi gyda'r plant, y pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yr ydych yn gweithio gyda nhw, a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
- K2 arddulliau a ffurfiau gwahanol o gyfathrebu a all fod yn briodol, gan gynnwys sianeli electronig a chyfathrebu mewn ieithoedd gwahanol
- K3 pwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau, fel iaith y corff, a sut mae diwylliannau gwahanol yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn gwahanol ffyrdd
- K4 rhwystrau posibl rhag cyfathrebu, eu hachosion, a ffyrdd o'u goresgyn
- K5 rôl a gwerth teuluoedd a gofalwyr fel partneriaid wrth gefnogi eu plant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
- K6 pwysigrwydd cynnwys y plentyn/person ifanc a'i deulu/gofalwyr yn y broses a sut mae gwneud hyn
- K7 sut mae plant a phobl ifanc yn gweld ac yn cael profiad o'r byd mewn gwahanol ffyrdd, ac effaith hyn ar gyfathrebu ac ymgysylltu â nhw
- K8 pwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth ac o osgoi tybiaethau
- K9 gweithdrefnau a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â materion cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl gwaith
- K10 terfynau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl gwaith, a'r amgylchiadau pan mae'n angenrheidiol mynd yn groes i ddymuniadau datganedig plentyn/ person ifanc er eu lles pennaf, ac mewn achosion o'r fath, pwysigrwydd sicrhau eu bod yn deall beth sy'n digwydd a pham

#### Diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K1 beth yw ystyr diogelu, a'r gwahanol ffyrdd y gallai plant a phobl ifanc gael eu niweidio, gan gynnwys gan blant a phobl ifanc eraill, a thrwy'r rhyngwrwyd
- K2 rolau allweddol rhieni a gofalwyr wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- K3 pryd a sut i drafod pryderon gyda rhieni a gofalwyr, a ffactorau a all effeithio ar fagu plant a chynyddu'r risg o gamdriniaeth
- K4 arwyddion o gamdriniaeth posibl, gan gydnabod bod y rhain yn gallu bod yn gynnil, a sut mae'r rhain yn gallu cael eu mynegi mewn chwarae, gwaith celf, ac yn y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn mynd at gysylltiadau â phlant a/neu oedolion eraill
- K5 gwahanol fathau a graddau o gamdriniaeth, a'u heffaith ar ddatblygiad plant
- K6 deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, a'u heffaith ar weithdrefnau sy'n

## SFJYJGA7W

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

---

- berthnasol i'ch rôl gwaith
- K7 ffiniau eich cymhwysedd a'ch cyfrifoldeb eich hun, pryd i gynnwys eraill a sut i gael cyngor a chefnogaeth
- K8 sut gall rhagdybiaethau, gwerthoedd a gwahaniaethu ddylanwadu ar arfer, ac y gall atal rhai plant a phobl ifanc rhag cael cyfle cyfartal ac amddiffyniad cyfartal rhag niwed
- K9 y fframwaith asesu cyffredin ar gyfer plant a phobl ifanc (ffac) a, lle bo'n briodol, sut i'w ddefnyddio

#### Rhannu gwybodaeth gyda'r rheiny sydd ei hangen

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K10 rolau asiantaethau eraill, gweithdrefnau lleol ar amddiffyn plant ac amrywiadau yn y defnydd o derminoleg
- K11 pwysigrwydd rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun lles a diogelwch plant a phobl ifanc
- K12 sut mae gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedir a'r hyn a ddeallir yn gallu deillio o gasgliad neu ddehongliad, a sut i fynd i'r afael â hyn
- K13 gwahanol ffynonellau ar gyfer gwybodaeth berthnasol
- K14 pam nad oes angen cydsyniad bob amser i rannu gwybodaeth
- K15 yr egwyddorion sy'n llywodraethu o ran pryd y mae pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i roi eu cydsyniad i'w gwybodaeth, gan roi ystyriaeth briodol i brawf cymhwysedd gillick yn arbennig
- K16 y partïon sydd angen gwybodaeth, a/neu sydd â hawl iddi, a phryd, a'r gwahaniaeth rhwng rhannu gwybodaeth ar lefelau unigol, sefydliadol a phroffesiynol
- K17 gofynion o ran cyfrinachedd a sut gall gweithdrefnau cyfrinachedd gwahanol fod yn berthnasol mewn cyd-destunau gwahanol
- K18 y gwahaniaeth rhwng pyrth statudol caniataol a phyrth statudol gorfodol, a'u goblygiadau i rannu gwybodaeth

## SFJYJGA7W

Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

---

**Datblygwyd gan** Skills for Justice

---

**Fersiwn rhif** 1

---

**Dyddiad cymeradwyo** Rhagfyr 2008

---

**Dyddiad adolygu a awgrymir** Rhagfyr 2013

---

**Dilysrwydd** Cyfredol

---

**Statws** Gwreiddiol

---

**Sefydliad cychwynnol** Skills for Justice

---

**RCU gwreiddiol** O27NGA7

---

**Galwedigaethau perthnasol** Gwasanaethau Cyhoeddus; Gweithwyr Proffesiynol Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig Eraill

---

**Cyfes/Set** Cyfiawnder Ieuencid

---

**Geiriau Allweddol** communicate, engage, children, youth, family, carers